

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 36 Medi 7, 2023 50c.

Cymdeithas Annibynwyr Bro Cerwyn

Mewn oedfa yng nghapel Llandeilo ddydd Sul 16 Gorffennaf cafodd tair o'r gwragedd eu hanrhegu am eu gwaith diflino dros y blynyddoedd sef Mary Llewellyn fel organyddes am 66 mlynedd; Brenda Williams wedi ymdddeol ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth fel trysorydd yr eglwys a Nellie Vaughan a fu'n gofrestrydd y capel am 40 mlynedd. Gwerthfawrogwn eu llafur yn fawr.



Oedfa awyr agored


Cynhaliwyd yr oedfa awyr agored flynyddol yng Nghastell Henllys ar Sul 6 Awst ar y thema 'Iesu'n Sylwi, yn Syllu ac yn Gweld' allan o'r llyfr *Coronwch Ef yn Ben*. Cafwyd oedfa fendithiol gyda'r haul yn gwenu arnom.

Eirianwen



ANRHYDEDDU EIFION

Llongyfarchiadau mawr i Eifion Griffiths, cyn-drysorydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ar dderbyn Cymrodoriaeth er Anrhyddedd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi



Sant yng Nghaerfyrddin, mewn cydnabyddiaeth o'i wasanaeth neilltuo i'r Brifysgol.

Dywedodd Yr Athro Dylan E. Jones, Dirprwy Is-ganghellor: 'Mae Eifion Griffiths yn ddyn gweithgar, cymwynasgar sy'n llawn egwyddor ac yn ddyn a wnaeth gyfraniad sylweddol iawn at lwyddiant a thwf y brifysgol hon. Mae'n cael ei barchu a'i edmygu gan nifer fawr yn ei gymuned.'

Gyrfa brysur

Ganwyd Eifion yng nghysgod Castell Carreg Cennen a'i addysgu yn ysgol Gwynfe ac ysgol uwchradd Llanyddfry. Ymunodd â Banc Lloyds gan dreulio cyfnodau yng ngorllewin Cymru, Caerdydd, Pont-y-pŵl, Caergrawnt a Llundain. Ar ôl cyfnod gydag Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn hyrwyddo a chynghori busnesau fe'i penodwyd i swydd rheolwr yn Abertawe, lle treuliodd 10 mlynedd yn delio'n bennaf â chwmnïau a sefydliadau masnachol. Ym 1994 cafodd ei benodi'n gyfarwyddwr busnes ym Mhrifysgol Abertawe. Treuliodd Eifion hefyd bron i 10 mlynedd ar fyrddau iechyd Bro Morgannwg a Hywel Dda, Cwmni Tai Gwalia a phum mlynedd fel cadeirydd Bwrdd Masnachol Grŵp Pobl. Dychwelodd Eifion, a'i wraig Undeg, i'w fro enedigol yn 2006, gan ymsefydlu yn Ffair-fach, Llandeilo, ar ôl 26 mlynedd yng Nghastell-nedd.

Cefnogi mudiadau

Mae Eifion yn parhau i gefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol ei filltir sgwâr. Mae'n cyfrannu at lwyddiant Menter Dinefwr, sefydliad sy'n ceisio datblygu'r gymuned leol a hybu'r iaith Gymraeg yng ngogledd Sir Gâr. Treuliodd wyth mlynedd hefyd fel trysorydd Undeb Yr Annibynwyr Cymraeg, ac ar hyn o bryd mae'n drysorydd Money for Madagascar – elusen sy'n codi arian at brosiectau dyngarol ac addysgol yn un o'r gwledydd tlotaf yn y byd.

Argraffiadau'r Llywydd

Yn ystod cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Rhosllannerchrugog eleni fe gyflwynodd y Parchg Beti-Wyn James ei hargraffiadau wrth i dymor ei llywyddiaeth ddirwyn i ben. Dyma'r erthygl gyntaf o ddwy sy'n crynhoi'r hyn ddywedwyd ganddi.



Bu cyfnod fy llywyddiaeth dros y ddwy flynedd diwethaf yn brofiad, yn addysg, yn agoriad llygad, ond yn fwy na dim, yn fraint aruthrol. Cychwynnais ar fy ngwaith mewn cyfnod digon anodd, a ninnau ond megis yn cychwyn camu allan o'r cyfnod clo. Cefais fy urddo'n Llywydd mewn oedfa ddigidol gydag ond dwsin ohonom yn bresennol yng Nghapel Newydd, Llandeilo a phawb arall yn gwylio'n rhithiol. A chan fod gen i gymaint o ddiddordeb yn y weinidogaeth ddigidol, braint bersonol i mi oedd bod y Llywydd Digidol cyntaf yr Undeb!

Addasu

Bu'r ddwy flynedd ddiwethaf yn gyfnod o addasu, ailafael, ail-fagu hyder ac ailfeddwl. Elfennau sydd wedi effeithio ar bawb ohonom. Pan gychwynnais fy llywyddiaeth, roedd rhan fwyaf y cyfarfodydd dros Zoom. Pwy glywodd am Zoom cyn 2021? Na fi chwaith! Ond diolch amdano, ac am iddo fod yn gyfrwng i gadw ein cynulleidfaoedd ynghyd a hefyd er mwyn i waith yr Undeb fynd rhagddo. Er cystal yw cyfarfod wyneb yn wyneb, da gweld bod y cyfrwng digidol hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio pan fo hynny'n ymarferol bosib. Mae'n arbed teithio, yn arbed arian ond yn bwysicach na dim yn well o lawer i'r amgylchedd.

Dathlu 150 mlynedd

Braint i mi hefyd oedd bod yn llywydd

adeg pen-blwydd yr Undeb yn gant pum deg oed. Hyfrydwch oedd llywyddu darlith ysbrydoledig Dr Prys Morgan yn Ebeneser, Abertawe, ganrif a hanner i'r noson yn y lle y gwnaed y penderfyniad i ffurfio Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Llawenydd mawr i ni yng Nghaerfyrddin oedd rhoi cartref i Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb ym mlwyddyn y dathlu – canrif a hanner ers y cyfarfodydd cyntaf a gynhaliwyd yng nghapel Heol Awst, Caerfyrddin. Testun anerchiad Llywydd cyntaf yr Undeb ym 1872, sef Gwilym Hiraethog, oedd 'Satan'. Prin y byddai yntau na neb arall yn dychmygu ganrif a hanner yn ddiweddarach y byddai merch yn Llywydd ac yn traddodi ar 'Her yr Eglwys Ôl-Covid'.

A sôn am ein llywydd cyntaf, Gwilym Hiraethog, fe benderfynais y byddem yn gosod torch o flodau ar fedd y llywydd cyntaf ym mlwyddyn dathlu'r Undeb yn 150 oed. Llwyddais i ddod o hyd i'w fedd yng nghanol y degau o erwau o feddau ym mynwent Toxteth Park, Lerpwl. Wrth ddarllen ei garreg fedd sylwais iddo farw ar ddydd ei ben-blwydd, sef 8 Tachwedd. Hoffwn gynnig ein bod fel Undeb yn gwneud 8 Tachwedd bob blwyddyn yn ddiwrnod Gwilym Hiraethog o barch i'n llywydd cyntaf!

Cyfundebau

Gyda chyfyngiadau Covid wedi codi, dyma gychwyn teithio i ymweld â'r



Cyfundebau. Heb os, dyma rai o uchafbwyntiau fy nhymor fel llywydd. Diolch am bob gwahoddiad ac am y croeso twymgalon. Rwyf wedi ymweld â llyfydd newydd, wedi gyrru ar heolydd newydd, wedi cymryd troeon anghywir, a rhai newydd, ond yn fwy na dim wedi cyfarfod â phobl newydd. Mae wedi bod yn gymaint o fraint eich cyfarfod chi i gyd, ac mae'r gwaith sy'n digwydd yn ein cyfundebau yn codi'r galon yn fawr iawn.

Mae'r cyfundebau yn olwynion allweddol ym mecanwaith holl waith a chenhadaeth Undeb yr Annibynwyr. Y cyfundebau yw'r dolenni cyswllt rhwng yr Undeb a'r eglwys lleol. Rwy'n apelio ar yr eglwys i sicrhau bod cynrychiolaeth o'u plith yn presenoli eu hunain yn y cyfarfodydd chwarter. Mae'r berthynas â'r cyfundebau mor bwysig.

Ymweliadau eraill

Braint pob llywydd yw cynrychioli'r Undeb mewn lluo o gyfarfodydd a digwyddiadau eraill, fel cyfarfodydd blynyddol yr enwadau a chorff llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ynghyd â dathliadau cyd-eglwys yn Nghymru a thros y ffin. Ni fu'r gwahoddiadau a'r cyfleoedd yn brin. Bu pob ymweliad yn brofiad gwerthfawr iawn.

Bydd yr ail erthygl yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Eglwys Annibynnol Gellimanwydd Rhydaman a Moreia Tycroes

Cynhelir

Cyfarfod Sefydlu y Parchedig Ddr EMYR GWYN EVANS, BD

(Eglwys Gofalaeth Bröydd Myrddin)

yn weinidog i Iesu Grist yn yr eglwys
uchod yng

NGHAPEL GELLIMANWYDD RHYDAMAN

nos Fercher 20 Medi 2023

am 7.00 o'r gloch

Gwahoddir chwi yn gynnes i'r cyfarfod

Darperir lluniaeth yn neuadd
Gellimanwydd

Yr Adran Gydenwadol

Lleuwen Steffan – casglu ac ailrecordio emynau gwerin Cymraeg

Bu digwyddiad unigryw yn yr Hen Gapel, Pencader, brynhawn Llun, 21 Awst, drwy gydweithrediad Coda Ni, elusen Gristnogol ym Mhencader, a Plethu, prosiect celfyddydol Cymraeg yn Llandysul. Rhoddwyd llwyfan i'r cerddor adnabyddus Lleuwen Steffan i gyflwyno emynau gwerin Cymraeg a chwrdd â Marie, y bu ei thad mor bwysig o ran cadw'r emynau.

Mae Lleuwen wedi bod yn byw yn Llydaw ers deuddeg mlynedd gyda'i dau blentyn. Ond wrth deithio i Gymru i berfformio, bu'n ymweld ag archif sain Sain Ffagan yn ei hamser sbâr i chwilota drwy hen recordiadau o bobl yn sôn am hen emynau gwerin sydd ddim yn ymddangos bellach yn y mwyafrif o gasgliadau. Mae'n teimlo mai Duw sydd wedi rhoi'r gwaith yma ar ei chalon. Bu hefyd yn teithio i sgwrsio â disgynyddion y bobol y bu'n gwrando arnynt. Dyma eiriau Lleuwen cyn y digwyddiad:

'Un o'r pethau dw i'n mwynhau am yr antur gerddorol hon yw cysylltu, cwrdd a chwarae fy nghyfansoddiadau newydd i ddisgynyddion casglwyr yr emynau llafar gwlad. Dw i wedi cael caniatâd Sain Ffagan a'r Llyfrgell Genedlaethol i ddefnyddio rhannau penodol o'r archif sain yn fy nghyfansoddiadau, a diolch iddynt am hynny. Ond mae caniatâd y disgynyddion yn allweddol wrth imi baratoi ar gyfer y camau nesaf.

'Yn ystod y blynyddoedd o weithio ar hwn, dw i wedi cwrdd â dynes 93 oed yn clywed llais ei hen nain am y tro cyntaf. Dw i wedi cael cyfle i gwrdd â disgynyddion oedd ddim yn gwybod am fodolaeth recordiadau lleisiol eu cyn-dadau. Pob un, hyd yma, yn awyddus i siarad am eu hanwyliaid.'

Ers rhai blynyddoedd bu Lleuwen yn awyddus i ddod i Bencader i sgwrsio ag un o'r disgynyddion. Wrth iddi ddod i weithio ar brosiect celfyddydol Plethu yn yr un ardal, fe drefnwyd iddi gwrdd â'r teulu gyda chynulleidfâ'n bresennol hefyd fel bod modd iddi sôn am ei gwaith a chael ymateb.

Wrth i Lleuwen baratoi i ryddhau'r cynhyrchiad cerddorol agweledol yng Ngŵyl Ryng-Geltaidd Lorient a'r Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf, roedd yn bwysig iddi hi'n bersonol i rannu peth o'r gwaith gyda disgynyddion David Griffiths, yn enwedig ei ferch Marie, sy'n byw gyda'i gŵr, Gwynfor, ym Mhencader. Mae'r ddau wedi bod yn rhan o elusen Coda Ni ers ei chreu. Dyma eiriau Lleuwen eto:

'Un o'r lleisiau mwyaf nodedig wrth drafod yr emynau llafar gwlad yw David Griffiths (1910–95) o Llanfynydd a Chapel Isaac. Emynau oedd diddordeb mawr ei fywyd. Yn ei gof a'i nodiadau roedd degau ar ddegau o benillion o emynau sydd ddim yn y casgliadau enwadol swyddogol. Heb ei gasgliad o'r emynau llafar gwlad, fasa'r gwaith newydd ddim yn bod. Dw i mor ddiolchgar iddo gofio a chasglu cymaint ohonynt.'

Roedd Marie, Gwynfor a'u merch Mwynwen, a oedd hefyd yn bresennol, wrth eu bodd gyda'r gerddoriaeth newydd. Mae Lleuwen wedi gwrando ar ddegau o oriau o sain i ddewis darnau



y mae'n teimlo sy'n dal ysbryd yr hyn oedd yn cael ei ddweud. Yn ystod y Clo Mawr bu Lleuwen yn dysgu cynhyrchu cerddoriaeth ei hunan gyda'r artist cerddorol Ed Holden. Mae wedi defnyddio'r sgiliau newydd yma i greu darnau o gerddoriaeth epig sy'n cyfuno lleisiau o recordiau Sain Ffagan â llinynnau cyfoethog a llais periaidd Lleuwen yn gweu mewn a mas drwy'r cyfan.

Disgrifiodd Ffred Ffransis, cydlynnydd Coda Ni, y gerddoriaeth fel 'Fusion dros y cenedlaethau, yn pontio diwylliannau [#yrunffydd](#)'.

Dyma ddisgrifiad Siân ap Gwynfor o'r digwyddiad; mae hi hefyd yn weithgar iawn gydag elusen Coda Ni ac yn byw yn Llandysul: 'Profiad gwfreiddiol i mi oedd cael bod yn yr Hen Gapel, Pencader, pnawn 'ma yn gwrando ar gyflwyniad unigryw Lleuwen Steffan ... person arbennig a thalentog tu hwnt ond o mor ddiymhongar a diffws. Pleser pur oedd cael bod yno.'

Bydd Lleuwen 'nôl yn Llandysul ganol Medi ar gyfer dathlu Dydd Owain Glyndŵr (16 Medi) ym Mharc Llandysul. Mae hi'n cydweithio ar gynhyrchiad Plethu o'r enw Ffair Elen i dathlu bod Elen, mam Glyndŵr, wedi ei geni a'i magu yn Llandysul.

Gellir darganfod mwy am y gwaith casglu a recordio hen emynau gwerin wrth ddilyn @LleuwenSteffan ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Mae Coda Ni a Plethu hefyd ar Facebook ac Instagram, neu gellir cysylltu â Coda Ni ar 01559 384378 a Plethu ar 07966014348.

Lleucu Meinir

Dathlwch Roddion Duw ar Ddydd Sul Ymwybyddiaeth Anabledd, 17 Medi 2023

Mae Through the Roof, elusen Gristnogol sy'n ymgychu dros bobl ag anabledd, yn cynnig adnoddau am ddim ar gyfer Sul Ymwybyddiaeth Anabledd ar 17 Medi 2023 (neu ddiwrnod o'ch dewis chi). Gwahoddir pob eglwys i ddathlu'r rhoddion unigryw y mae Duw yn eu rhoi i bob un ohonom – gan gynnwys pobl anabl.

Dilynwch y ddolen hon i ofyn am becyn adnoddau rhad ac am ddim (yn Saesneg): <https://throughtheroof.org/forchurches/disability-awareness-sunday/>

Mae gan oddeutu 20% o boblogaeth y Deyrnas Unedig anabledd (Arolwg o Adnoddau Teuluol, 2021). Ac eto, nid yw ein heglwys bob amser yn adlewyrchu'r ganran honno, yn enwedig o ran arweinwyr ac eraill sydd â chyfrifoldeb am waith yr eglwys. Rydyn ni i gyd yn cael ein 'gwneud yn ofnadwy a rhyfeddol' gan Dduw ac rydyn ni'n 'bob rhan o gorff Crist'.

A yw eich eglwys neu'ch cymuned Gristnogol yn cynnwys pobl anabl yn ei gweinidogaeth?

– trwy alluogi rhoddion a thalentau pobl anabl a roddwyd gan Dduw i gael eu rhannu ag eraill.

Gallwch ddefnyddio Dydd Sul Ymwybyddiaeth Anabledd fel neges gadarnhaol i bobl anabl.

Rydym yn gwahodd pob cynulleidfa eglwysig i ddathlu pobl anabl ac i ddefnyddio'r adnoddau rhad ac am ddim a gynhyrchwyd gennym i gynnal gwasanaeth neu ddigwyddiad Dydd Sul Ymwybyddiaeth Anabledd 2023.

Mae dwy set o adnoddau Saesneg ar gyfer y Sul ar gael am ddim:

1. **Ar gyfer eich digwyddiad cyntaf:** rydym yn argymhell defnyddio pecyn adnoddau

llawn 2022, yn seiliedig ar Luc 5 am y dyn â'r parlys yn mynd trwy'r to, gydag awgrymiadau ar gyfer gwasanaeth cyflawn ac wyth fideo.

2. **Am ddigwyddiad pellach:** defnyddiwch adnodd newydd 2023 ar 'Y rhoddion unigryw y mae Duw yn eu rhoi i ni', gydag amlinelliad o'r gwasanaeth a fideo byr o Ashleigh, hyrwyddwr anabledd Roofbreaker sy'n goresgyn rhwystrau.

Mae Ashleigh yn enghraifft wych o berson anabl yn defnyddio'i doniau i wasanaethu yn yr eglwys, wrth iddi helpu i arwain Rhwydwaith Roofbreaker Caeredin. Yn y fideo, mae Ashleigh yn rhannu ei neges ysbrydoledig: 'ei bod mor bwysig defnyddio'r rhoddion y mae Duw wedi'u rhoi i chi fel chi – nid fel y person rydych chi'n meddwl y mae angen i chi fod'.

Meddai Katie Mobbs, Arweinydd Tîm Roofbreaker Through the Roof, sy'n defnyddio cadair olwyn. 'Mae eglwys heb bobl anabl yn eglwys anghyflawn. Mae angen pobl anabl arnom – yn enwedig fel arweinwyr – oherwydd eu bod yn gwybod beth sydd ei angen i wneud y llwybr yn glir i ragor o bobl anabl; mae llawer hefyd i'w ennill gan yr eglwys gyfan.' Ymunwch â ni i godi ymwybyddiaeth drwy gynnal gwasanaeth neu ddigwyddiad Dydd Sul Ymwybyddiaeth Anabledd eleni, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r rhoddion a'r doniau y mae Duw yn eu rhoi i bobl anabl.

Cewch fynediad at yr adnoddau Saesneg, rhad ac am ddim yma, gan gynnwys cardiau post Ymwybyddiaeth Anabledd i'w harchebu ar gyfer eich digwyddiad.

Elusen Gristnogol sy'n ymgychu ar ran pobl ag anabledd yw Through the Roof. Daw'r enw o'r hanes yn Efengyl Luc,



pennod 5. Ein cenhadaeth yw trawsnewid bywydau trwy lesu gyda phobl anabl. Gwnawn hyn drwy dair elfen wahanol ond cydgyssylltiedig:

- **Galluogi Ffydd:** Arfogi eglwys i a'n Roofbreakers (hyrwyddwyr anabledd lleol) i alluogi pobl anabl i gyfranogi a pherthyn i fywyd Cristnogol.
- **Dod â Rhyddid:** Mae'r prosiect 'Wheels for the World' yn darparu cadeiriau olwyn a Beiblau i bobl anabl mewn gwledydd sy'n datblygu.
- **Rhannu Cymdeithas:** Mae ein gwyliau hygyrch ac encilion, sydd â ffocws Cristnogol iddynt, yn dod â hwy i a chyfeillgarwch i bawb.

Manylion cysylltu:

E-bost (Katie, Cydlynnydd Cymru):

katie@throughtheroof.org

Ffôn (Katie, Cydlynnydd Cymru):

07857 896 592

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

www.throughtheroof.org neu

@TTRChangesLives ar y

cyfryngau cymdeithasol.

Noson arddangos adnoddau a thrafod gwaith plant ac ieuenctid

Nos Fercher, 13 Medi 2023, cynhelir arddangosfa o adnoddau yng Nghapel Rhos-y-gad, Llanfair-pwll, Môn rhwng 7 a 9 o'r gloch.

Bydd Aled Davies o'r Cyngor Ysgolion Sul yno i drafod a chynghori ar faterion gwaith plant, a hefyd o ran adoliad ac adnoddau i gynnal oedfa ar y Sul. Yn ogystal, bydd dewis helaeth o adnoddau ar gael i'w prynu. Dewch ynghyd i drafod posibiliadau ac i rannu eich profiadau o ran cynnal ysgolion Sul. Croeso cynnes i bawb i daro i mewn unrhyw bryd rhwng 7 a 9 o'r gloch.


Adnoddau Cymraeg i nodi 60 mlynedd ers araith 'Mae Gen i Freuddwyd' Martin Luther King

Fe ddaeth adnoddau defnyddiol i law yn y Gymraeg gan yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) er mwyn ein helpu fel eglwys i nodi trigain mlynedd ers araith fawr Dr Martin Luther King Jr. ddiwedd Awst eleni.

Er i chwe degawd fynd heibio ers yr araith chwedlonol, nid yw amser na'r digwyddiadau ers hynny wedi lleihau ei dylanwad na'i hetfeddiaeth. Erys araith Dr King yn alwad i'n hysbrydoli i weithio dros fyd mwy cyfiawn.

Mewn erthygl ar wahân, mae Richard Reddie, Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant CTBI, yn rhoi [trosolwg o araith ac etifeddiaeth y Parch Ddr Martin Luther King Jr.](https://ctbi.org.uk/60th-anniversary-of-martin-luther-kings-i-have-a-dream/) Wele'r ddolen isod at yr adnoddau dwyieithog i'ch helpu i nodi'r pen-blwydd arbennig hwn eleni.

<https://ctbi.org.uk/60th-anniversary-of-martin-luther-kings-i-have-a-dream/>



ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

38 Trefnu priodas (Rhan 2)

Darllen: Genesis 24:10–67

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 165)

Gan fod yr adran hon yn weddol faith, rwyf am ganolbwyntio y tro hwn ar rai egwyddorion sy'n codi o'r hanes. Wrth wneud hynny, rwyf yn cadw mewn cof, er nad yw'r Beibl yn rhyw fath o gyfeirlyfr – yn lle i chi fynd i ddarganfod beth sydd i'w wneud ym mhob sefyllfa wahanol, eto mae'n cynnwys egwyddorion sy'n gymorth i'r rhai sy'n caru Iesu i fyw mewn ffordd sy'n plesio Duw. Yn 1 Corinthaiaid 10:11 mae Paul yn atgoffa'r Eglwys, 'digwyddodd y pethau hyn iddynt hwy fel esiamplau, ac fe'u hysgrifennwyd fel rhybudd i ni, rhai y daeth terfyn yr oesoedd arnom'. Mae hyn yn cyd-fynd â'r geiriau yn Rhufeiniaid 15:4, 'Ac fe ysgrifennwyd yr Ysgrhythurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal ein gafael yn ein gobaith.' Gyda hyn mewn golwg, rwyf am edrych ar ffyddlondeb y gwas, cymeriad Rebeca a chysur Isaac.

Ceir rhai esbonwyr yn awgrymu mai'r 'gwas' yma yw Eleasar o Ddamascus (Genesis 15:2). Os felly, mae ei ffyddlondeb dros y blynyddoedd, fel yn y mater penodol hwn, yn rhywbeth inni ryfeddu ato. Pe bai Abraham a Sarah heb gael mab, hwn fyddai wedi etifeddu stad Abraham, ond, yn hytrach na dyn sy'n chwerau am yr hyn a fyddai wedi bod yn bosibl, cawn ddyn sydd mor ffyddlon fel ei fod wedi derbyn y cyfrifoldeb o ofalu am holl eiddo ei feistr (24:2). Tybed ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod wedi'i feddiannu gan chwerau sy'n peri nad ydynt yn rhoi'r gorau i'w gwaith, neu i berthynas? Nid felly'r gwas hwn; yn wir, mae yna ddoethineb a duwioldeb yn gyfuriog yn ei ymateb. Mae'r doethineb yn dod i'r golwg yn ei benderfyniad i sicrhau nad pryd a gwedd ond cymeriad sy'n allweddol yn yr ymchwil yma am wraig, a'i dduwioldeb yn llifo drwy ei ddefosiwn a'i weddiâu parhaus yn ystod y gwaith.

Sylwch o ran yr elfen gyntaf ar adnod 16, 'Yr oedd y ferch yn hardd odiaeth, yn wryf, heb orwedd gyda gŵr'. Doedd yr

un oedd wedi gweddio yn adnod 12, 'O ARGLWYDD, Duw fy meistr Abraham, rho lwyddiant i mi heddiw' ac wedi bwriadu profi cymhellion a chymeriad yn adnod 14, 'Y ferch y dywedaf wrthi, "Gostwng dy stên, er mwyn i mi gael yfed", a hithau'n ateb, "Yf, ac mi rof ddiod i'th gamelod hefyd"', ddim am gyfaddawdu ar yr hyn a welai fel nodweddion angenrheidiol cymar priodol.

Wrth i'r hanes fynd yn ei flaen, cawn yr un defosiwn yn adnodau 26–7, 48 a 52. Sylwch hefyd ar yr adlais o Eiseia 65:24, 'Byddaf yn eu hateb cyn iddynt alw, ac yn eu gwranddo wrth iddynt lefaru'. 'Cyn iddo orffen siarad, dyma Rebeca, a anwyd i Bethuel fab Milca, gwraig Nachor, brawd Abraham, yn dod allan â'i stên ar ei hysgwydd' (adn. 15).

Medrwn fod yn hyderus fod y Duw sy'n adnabod ein hanghenion a'n deisyfiadau cyn inni eu mynegi yn Dduw sydd am ein hateb yn ôl ei ewyllys: 'A hwn yw'r hyder sydd gennym ger ei fron ef: y bydd ef yn gwranddo arnom os gofynnwn am rywbeth yn unol â'i ewyllys ef. Ac os ydym yn gwybod ei fod yn gwranddo arnom, beth bynnag y byddwn yn gofyn amdano, yr ydym yn gwybod bod y pethau yr ydym wedi gofyn iddo amdanynt yn eiddo inni' (1 Ioan 5:14–15).

Os oedd y gwas yn awyddus i ddarnad cymeriad Rebeca, mae'r ateb yn dod mewn ffordd eithriadol. Un peth yw mynd i'r ffynnon i nôl dŵr iddo ef a'i gyd-deithwyr, peth arall yw mynd yn ôl a blaen droeon i ateb gofyn y camelod! Yn ôl y sôn, mae'r rhain yn medru yfed rhwng 140 a 250 galwyn yr un! Yn adnod 17, gofyn am ddiod yn bersonol mae'r gwas, ond yn adnod 19 fe glywn, 'Pan orffennodd roi diod iddo, dywedodd hi, "Codaf ddŵr i'th gamelod hefyd, nes iddynt gael digon."' Mae'n gwneud hyn i ddyn dieithr, dyn o wlad ddieithr. Er bod y gwas wedi gweddio y byddai'n rhoi dŵr, mae hon yn rhoi – 'nes iddynt gael digon'.

Wedi deall pwy oedd hwn a beth oedd ei dasg, sylwch ar barodrwydd Rebeca i fynd, 'A galwasant ar Rebeca, a dweud wrthi, "A ei di gyda'r gŵr hwn?" Atebodd hithau, "Af."' (adn. 58) Roedd Laban, brawd Rebeca, yn ymwybodol fod yr Arglwydd yn y gwaith hwn ('Oddi wrth yr ARGLWYDD y daeth hyn; ni allwn ni ddweud dim wrthyt,

na drwg na da' (adn. 50), ac mae'n amlwg fod Rebeca hefyd yn dirdad yr un modd. Pan mae'n cyrraedd Canaan ac yn gweld Isaac, 'Cymerodd hithau orchudd a'i wisgo' (adn. 65). Wrth wisgo'r gorchudd, mae'n gwneud yr hyn yr oedd priodasferch yn ei wneud wrth ddod at ei gŵr. O ddarllen ymlaen yn Genesis rydym yn gwybod fod Rebeca yn wraig oedd yn gwybod ei meddwl. Ond yma, gyda'r pwyslais ar ei chymeriad duwiol, mae'r Beibl yn dangos eto nad oes gwrthgyferbyniad rhwng y naill elfen a'r llall ynddi.

Mae'r adnod olaf yn y bennod yn rhoi darlun inni o'r cysur a'r cariad y mae Isaac yn ei adnabod yn ei briodas â Rebeca: 'Yna daeth Isaac â Rebeca i mewn i babell ei fam Sara, a'i chymryd yn wraig iddo. Carodd Isaac Rebeca, ac felly cafodd gysur ar ôl marw ei fam' (adn. 67). O glywed am ddaioni Duw yn agor y ffordd yma yn adnod 66, mae yna barodrwydd i dderbyn ateb Duw, i weithio ar garu, ac i elwa o gysur y berthynas newydd yma.

1. Sut fyddwch chi'n delio â chwerauwr? Beth arall all atal ein parodrwydd i roi o'n gorau i'r Arglwydd yn ein bywyd a'n gwaith?
2. 'Yr hyn sydd yn y golwg a wêl meidrollyn, ond y mae'r ARGLWYDD yn gweld beth sydd yn y galon.' (1 Samuel 16:7) Beth sy'n creu ac yn cynnal cymeriad y Cristion?
3. 'Carodd Isaac Rebeca' – mewn oes lle mae cariad yn aml yn ddibynnol ar sut dwi'n teimlo neu ddim ond yn wir oherwydd sut dwi'n teimlo, beth yw goblygiadau deall cariad fel rhywbeth rydym yn ei wneud?



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 10 Medi, am 7:30yb a 16:30yp
Betsan Powys yn cyflwyno Côrddydd yn canu detholiad o emynau

Sul, 10 Medi, am 12yp

Oedfa dan ofal Miriam Beecroft,
Machynlleth

Myfyrdod o'r Beibl

Y Beibl a'i bobl 2 : Noa

Yr ail gymeriad i'w ystyried yn ein cyfres o fyfyrdodau ar brif gymeriadau'r Beibl yw Noa. Rydym yn darllen ei hanes yn Genesis 6–9.

Heb os, mae stori Noa yn gyfarwydd iawn i nifer ohonom gan ein bod wedi ei astudio droeon yn yr Ysgol Sul. Ers Cwmp Adda ac Efa, mae dynoliaeth wedi mynd o ddrwg i waeth (gweler Genesis 4–5). Mae Duw yn arbennig o amyneddgar gyda'i greaduriaid gwydroedig ond erbyn Genesis 6 ni all anwybyddu eu drygioni rhagor. Gan fod Duw yn cymryd cyfiawnder a daioni o ddifrif, mae'n rhaid iddo ymyrryd er mwyn delio â drygioni a phechod dynoliaeth (Genesis 6:5). Yr hyn mae'n mynd i'w wneud yw anfon dilyw (sef llifogydd enfawr) i'w cosbi.

Er hynny, nid yw Duw'n mynd i gosbi pawb. Yn ei ras a'i gariad anhygoel, mae Duw'n dewis arbed un person a'i deulu: Noa. Yn wir, mae Genesis 6:8 yn dweud hyn: 'Ond cafodd Noa ffafr yng ngolwg yr Arglwydd.'



Pam Noa?

Ond *pam* gafodd Noa ei ffafrio gan Dduw? Wel, ni chafodd Noa ei ffafrio am ei fod yn ddibechod; fel pawb arall, roedd Noa wedi gwrthryfela yn erbyn Duw. Yn wir, nid oedd Noa wedi gwneud dim arbennig i haeddu ffafr Duw. (Wrth gwrs, mae Genesis 6:9 yn dweud fod Noa'n 'ŵr cyfiawn' ond mae hyn yn dod ar ôl – nid cyn – iddo dderbyn ffafr Duw yn rhodd. Canlyniad ffafr Duw ac nid ei achos yw bywyd cyfiawn Noa).

Yr unig reswm pam gafodd Noa ei ffafrio gan Dduw oedd fod Duw wedi dewis gwneud hynny. Dyma beth mae'r gair 'gras' yn ei olygu yn y Beibl. 'Gras' yw bod Duw yn dangos ffafr tuag at

rywun er nad ydynt yn haeddu'r fath ffafr. A dyma beth mae'r Arglwydd yn ei wneud yn achos Noa. Dyma Dduw yn dangos ei ras tuag ato. Yn hytrach na'i gosbi, mae'n addo ei gadw ef a'i deulu yn ddiogel yng nghanol y dilyw.

Ymateb i ras

Mae Noa'n ymateb i ras Duw trwy roi ei ffydd yn Nuw. Er nad oedd sôn am law trwm ar ragolygon tywydd Noa, mae'n cychwyn adeiladu'r arch fydd yn arbed ei deulu. Yna, pan mae'r llifogydd yn dod yn Genesis 7:11, mae Noa a'i deulu'n gwbl ddiogel er gwaetha'r dilyw. Er bod Noa'n ymateb trwy ymddiried yn Nuw, roedd yn parhau i fod yn ddyn ffaledig. Yn wir, mae Genesis 9:20–21 yn sôn fod Noa wedi meddwi'n rhacs mewn pabell ar ôl i'r dilyw ddod i ben. Ond, er ei fethiannau, roedd Noa wedi derbyn gras Duw.

Mae stori Noa yn batrwm ar gyfer stori'r Cristion. Yn union fel yr arbedodd Duw Noa trwy ei ras, mae Duw yn achub y Cristion trwy yr un gras. Os ydym wedi ildio ein bywydau i'r Arglwydd Iesu Grist, nid yw Duw yn ein trin ni fel yr ydym yn haeddu cael ein trin – yn ôl ein pechod, ein methiannau a'n drygioni. Yn hytrach, mae Duw yn ein trin ni yn ôl ei ras. Gan fod Iesu wedi delio â'n pechodau ar y groes, mae Duw nawr yn gallu'n bendithio ni gyda phethau nad ydym yn eu haeddu'n naturiol – maddeuant, mabwysiad, trugaredd a bywyd tragwyddol.

Ond sut ydym i ymateb i ras Duw? Wel, fel yn achos Noa, yr unig ymateb addas i ras Duw yw *ffydd*. Rydym i ymateb i ras Duw trwy roi ein ffydd yn Nuw. Ffydd yn syml yw trystio neu ymddiried. Yr hyn mae Duw eisiau i ni ei wneud fel ymateb i'w ras ydy trystio ac ymddiried yn Iesu Grist fel yr un sydd wedi marw ac atgyfodi trosom. Os ymddiriedwn yn Iesu mae Duw'n addo ein cadw ni'n ddiogel yn dragwyddol yn union fel y cadwodd Noa a'i deulu'n ddiogel yn yr arch. Yn wir, fel y dywedodd Ann Griffiths yn ei hemyn:

Er cryfed ydyw'r gwyntoedd
a chedryn donnau'r môr,
doethineb ydyw'r Llywydd,
a'i enw'n gadarn Iôr:
er gwaethaf dilyw pechod
a llygredd o bob rhyw,
dihangol byth heb soddi,
am fod yr arch yn *Dduw*.

Gwilym Tudur

Mannau Llonydd Distaw

Mannau o dawelwch ac o seintwar. Ein harwyddion ffyrdd mewn byd swllyd. Soniodd rhywun unwaith am Taizé yn y termau hyn: 'It is a place where time stood still, and meeting with God became easy.' Dywedodd rhywun arall yn gofiadwy iawn am ynys Iona, 'The silence was deafening.' Weithiau, y manau di-nod, tawel ac annisgwyl sydd â rhywbeth arbennig yno.

Ynghanol ansicrwydd ac anwadalwch bywyd a'r byd ar hyn o bryd, mae'n hollbwysig cywain ac adfer egni yn y manau bywiol, a gadael i'r egni hwnnw, rywfodd, ein mendio a'n hiacháu. Daw cyfle i yfed yr heddwch a'r tangnefedd ynddynt, a chyffwrdd yr hyn sy'n oesol. Maent yn fannau ble mae angen treiddio o dan yr wyneb ynddynt.

Mae'r tragwyddol yn y manau hyn, a modd i diwnio i mewn iddo. Clywais y cyn-Esgob Regan o Wrecsam yn dweud rhywdro mai 'mynd trwy le mae y twrist, ond gadael i'r lle mynd trwom ni wna'r pererin.' Cyrraedd rhyw bendraw, lle mae'r lleoliad yn cymryd drosodd, a'n holl boeni ninnau yn edrych yn gwbl ddibwys. Mannau i ildio iddynt sy'n falm i'r enaid. Mannau unigol neu i ymweld 'gydag enaid hoff cytûn'. Mannau fel Eifionydd i R. Williams Parry fedru canfod heddwch. Mae digon o enghreifftiau yn Llŷn ac Eifionydd, sy'n croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol yr Awst hwn.

Yn ein hoes gynyddol brysyr mae'n rhaid i ni gyd gael y manau bach hyn – rhyw lefydd ym mhendraw'r lôn lle medrwn fod yn 'ni ein hunain', ac ymlacio. Mannau lle nad oes disgwyliadau ohonom, lle y gallwn, i bob pwrpas, anghofio amdanom ein hunain a'n swyddi a'n pwysau gwaith am ychydig. Mannau sy'n gorfodi i ni 'stand and stare' chwedl W. H. Davies. Mannau o dangnefedd lle y medrwn ddechrau cyfarfod â ni ein hunan eto. Un o'r manau trawiadol hynny yw Eglwys Aberdaron, Llŷn. Pendraw llwybr pererindod newydd Cadfan, heblaw am un cymal olaf i'r Gorllewin dros y Swnt i Enlli. Dyma gofnodi'r profiad o ymweld â'r eglwys.

parhad ar y dudalen gefn

Golygyddol

Lloerennau

Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd; y lloer a'r sêr, y rhai a ordeiniaist; pa beth yw dyn, i ti i'w gofio? a mab dyn, i ti i ymweled ag ef?

SALM 8:3-4 (BWM)

Ble roeddech chi ym 1977? Efallai nad oeddech yn bod! Dyna flwyddyn jiwibili'r frenhines; blwyddyn geni Radio Cymru a'r Ford Fiesta, a marw Ryan

Davies ac Elvis Presley; a blwyddyn lansio dwy loeren – Voyager 1 a 2. Yn ystod yr holl flynyddoedd ers hynny mae'r ddwy loeren fach, sydd tua'r un faint a'r Fiesta, wedi bod yn hedfan yn agos at y planedau sy'n cylchdroi o gwmpas yr haul ar y cyflymdra aruthrol o 35,000 o filltiroedd yr awr gan anfon delweddau newydd a data arall yn ôl i bencadlys NASA. Hyn i gyd trwy bŵer




cyfrifiadurol y ffob sy'n datgloi drws eich car chi!

Ar daith i'r gwacter mawr

Yr haul a'r wyth prif blaned o'i gwmpas yw'r system solar, sef ein teulu bach gofodol ni. Eto, dim ond un seren yw'r haul allan o hyd at 400 biliwn o sêr yn y Llwybr Llaethog (neu Gaer Gwydion) sef ein teulu estynedig ni, sydd i'w weld fel bandyn golau ar draws y nen yn y nos. Ar ôl 46 mlynedd, mae'r ddwy loeren fach nawr wedi gadael ein system solar ac yn teithio mewn i'r gofod anferth rhyngom ni a'r sêr eraill agosaf, sydd ddeng miliwn o filiynau o filltiroedd i fwrdd. Mae'n anhygoel eu bod nhw'n dal i anfon rhywfaint o ddata 'nôl i'r ddaear o bellter o 15 biliwn o filltiroedd, ac yn debygol o ddal i wneud hynny am o leiaf dair blynedd arall tra'u bod nhw'n teithio i mewn i'r gwacter mawr.

Canfod anferthwydd y cread

Tan 1920, tybiwyd mai'r Llwybr Llaethog oedd y greadigaeth gyfan. Fe fyddai hynny ynddo'i hun yn ddigon o ryfeddod. Ond erbyn hyn, diolch yn bennaf i'r diweddar Edward Hubble a'r offer pwerus sy'n dwyn ei enw ar y ddaear ac



mewn lloerennau, fe wyddom ni mai dim ond un ymhlith biliynau o alaethau eraill yw'r Llwybr Llaethog – pob un â biliynau o sêr, a Duw a ŵyr (yn llythrennol) faint o blanedau. Mae anferthedd y cyfan ymhell y tu hwnt i amgyffred person. Fel y canodd Delwyn Siôn:

Pe bawn i'n gallu dweud wrth Mam-gu
Bod 'na sêr heibio'r sêr, yn ôl ein gwyddonwyr ni,
Mi fyddai'n anodd ganddi gredu
Fod dyn wedi medru gweld mor bell ...

Llwch hen sêr ydym

Os yw'r greadigaeth mor annealladwy a brawychus o anferth, cymaint mwy yw'r Creawdwr. Dyna oedd y Salmudd yn myfyrio arno un noson serenog yn y Dwyrain

Canol amser maith yn ôl. Ac o ryfeddu at y cyfan, teimlodd pa mor fach oedd e, a pha mor ddi-nod yw dynoliaeth. 'Pa beth yw dyn, i ti i'w gofio?' canodd. Wedi'r cyfan, llwch ydym. Mae'r datganiad: 'We are made from the dust of long dead stars' yn un gwyddonol gywir. Dros gyfnodau anhygoel o hir, mae sêr yn 'llosgi allan' gan ddinistrio'r planedau o'u cwmpas, a throï'n gymylau o lwch a nwy. Yna, mae'r cyfan yn ailgylchu i ffurfio sêr a phlanedau newydd a phopeth sydd arnynt, a hynny dros gyfnodau hirfaith dros ben. Llwych ydym, ac i lwch cosmig y trown yn ôl pan fydd yr haul yn chwyddo'n belen anferth o dân, gan losgi'r planedau cyfagos, cyn diffodd a throï'n llwch ei hun. (Peidiwch boeni, bydd hyn ymhell, bell yn y dyfodol!).

Ond er mai llwch ydym, fe gofiodd Duw amdanom, ac ymweld â ni trwy ymgnawdoli mewn gwerinwr tlawd o Nasareth. Yn Iesu, fe wnaeth Duw wisgo ein llwch ni, allan o gariad tuag atom yn ein cyflwr meidrol:

O gariad! O gariad! Anfeidrol ei faint,
Fod llwch mor annheilwng yn cael y fath fraint.

Mae'r Creawdwr ymhell y tu hwnt i'n hamgyffred ni. I aralleirio Salm 14: 'Dim ond ffŵl sy'n dweud wrtho'i hun, "Rwy'n deall Duw."' Ond mae Iesu Grist yn fodd i ni ddod i adnabod natur Duw yn ddigon da i gael perthynas bersonol â fe. Lle bu gynt yn cyfathrebu â'i bobl trwy gyfrwng amherffaith y proffwydi, yn Iesu Grist fe gafodd Duw ei hun wyneb dynol. Fe ymwelodd â'r blaned fach hon – sydd megis un gronyn o dywod ar draeth diddiwedd ei greadigaeth – allan o'i gonsyrn a'i gariad mawr tuag atom ni ei greaduriaid. Ac fe wnaeth hynny newid popeth.

Diolch iddo fyth am gofio llwch y llawr.

Alun Lenny

Cwrdd Chwarter Gorllewin Caerfyrddin

Dewch i glywed hanes arwrol Brwydr y Preselau 1946-48

gan Hefin Wyn yng nghapel


Bwlch-y-corn, ger Rhydargaeau SA31 7AP

7.00 nos iau 14 Medi

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd ceisiodd y fyddin feddiannu mynyddoedd y Preselau i'w troi'n faes ymarfer tanciau. Ond cawsant eu stopio gan ymgyrch y ffermwyr o dan arweiniad y gweinidogion lleol.

Bydd sesiwn gyntaf y Cwrdd Chwarter am 4.00. Gwledd yn y festri wedyn gan Gegin Fach y Wlad a chyfle i fwynhau'r lleoliad hyfryd hwn cyn y cwrdd am 7.00. Croeso cynnes i bawb.

(Llun: Y Preselau pell o lethrau Bwlch-y-corn)



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

O Fôn i Feirion Pererindod i Lanuwchllyn

Bore Sul 23 Gorffennaf cychwynnodd mintai ohonom o gapel Ebenezer Rhosmeirch, mam eglwys yr Annibynwyr ym Môn ar bererindod i Lanuwchllyn i'r Hen Gapel, mam eglwys yr Annibynwyr ym Meirionydd. Roeddem yn griw o 33, aelodau Ebenezer a chyfeillion o Siloam Talwrn, ac ychydig o gyfeillion eraill. Roedd y rhagolygon tywydd yn bur ddigalon ond unwaith cawsom bawb ar y bws, roedd awyrgylch braf a sgwrs ddifyr tra cymerai Huw'r gyrrwr y cyfrifoldeb am y daith.

Llanycil

Ein hegwyll gyntaf oedd yng Nghanolfan Mary Jones yn Llanycil, i gael picnic a phaned a golwg o gwmpas y ganolfan. Cawsom groeso cynnes gan Nerys Siddall un o ferched Llangefni sydd wedi ymgartrefu yn Lanuwchllyn. Yna taith fer i'r Hen Gapel, lle'r oedd y Parchg Carwyn Siddall (hogyn o Fôn) yn disgwyl

amdanom. Cawsom ymuno yn y gwasanaeth Cymun gyda'r gynulleidfa o dan arweiniad y gweinidog.

Rhoddodd y Parchg Carwyn Siddall fraslun o hanes y capel dros y blynnyddoedd a hefyd eglurodd sut y mae'n gweithredu fel gweinidog bro sy'n gofalu am gapeli o wahanol enwadau o dan ei adain. Cawsom gyfle i edrych o gwmpas y capel cyn mynd allan i'r fynwent i weld bedd Michael D. Jones ac erbyn hyn roedd yr haul yn tywynnu.

Llanuwchllyn

Yna troi am bentref Llanuwchllyn lle'r ymunodd y Parchg Carwyn Siddall â ni ar y bws i ddangos rhai llefydd nodedig yn y pentref gan gynnwys yr ysgoldy, adeilad cymharol newydd sy'n cael ei ddefnyddio o Sul o Sul i gynnal gwasanaethau, ond hefyd caiff ei ddefnyddio yn ystod yr wythnos ar gyfer amrywiol weithgareddau.

Mannau Llonydd Distaw - parhad

Cyfarfod â Duw
fel petai 'na 'stafell
yn llawn o bererinion,
yn eirias eu ffydd
am fentro'r ffordaith dros y Swnt
at y perl ar y gorwel,
Enlli.

Yma, gadawn i'r distawrwydd siarad â ni,
ein bwydo ni, bererinion blin.
Dyma bendraw'r penrhyn,
lle bu'r oesoedd yn cynnig eu heneidiau i Ti.

Â'n traed yn brifo,
fe'u golchir yn yr awyrgylch,
a churiad y don yn torri ar draeth
fel curiad ein calon.

Yno o hyd â'i wahoddiad,
i fynd ar ffordaith â'ch ffydd
i'r ynys annelwig ar y gorwel;
a chyfle i waddod heli bywyd

Aled Lewis Evans

(Allan o *Shalom*, cylchgrawn Capel y Groes, Ebeneser, Wrecsam, rhifyn 500, Gorffennaf-Awst 2023)

**Gwledda**

Troi am adre fu ein hanes wedyn gan deithio heibio llyn Tryweryn ac am Drawsffynydd, gan anelu at westy'r Afr yn Glan Dwyfach i gael swper a sgwrs. A mawr fu'r sgwrsio a mwynhau yno. Yna teithio adre trwy law trwm a chlywed ei bod wedi bwrw drwy'r dydd yn ynys Môn. Dihangfa braf i ni felly.

Ann Roberts

